ADRAN BUSNES,
MENTER A DIWYGIO RHEOLEIDDIO

CRYNODEB I GYNGHORAU SIR A CHYNGORAU BWRDEISTREF SIROL YNG NGHYMRU

Adroddiad Mesurau Ynni

Medi 2007

AR Y CYD AG:

YR ADRAN AMGYLCHEDD, BWYD A MATERION GWLEDIG

CYMUNEDAU A LLYWODRAETH LEOL

YR ADRAN DRAFNIDIAETH

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Lliniaru newidiadau hinsawdd a lleddfu cyni tanwydd

Crynodeb o adroddiad mesurau ynni 2007 i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru

Mae'r crynodeb hwn yn tynnu sylw i'r elfennau a all sbarduno camau gan awdurdodau lleol i liniaru newidiadau hinsawdd a lleddfu cyni tanwydd, ac yn disgrifio'r prif feysydd lle gall awdurdodau lleol weithredu. Mae'r adroddiad llawn yn manylu ar y camau posibl y gellid eu cymryd ymhob un o'r meysydd hyn.

Rôl awdurdodau lleol

Mae'r mwyafrif llethol o wyddonwyr yn cefnogi'r farn bod gollyngiadau nwyon tŷ gwydr (fel deuocsid carbon) sy'n deillio o weithgarwch dyn (fel cynhyrchu a defnyddio ynni) yn newid hinsawdd y ddaear a bod newidiadau tebygol y dyfodol yn fygythiad difrifol i gymdeithas ddynol a'r amgylchedd naturiol.

Yn Hydref 2006, cyhoeddwyd Arolwg Stern ar economeg newidiadau hinsawdd. Roedd hwn yn asesu'r dystiolaeth o ran ardrawiad newidiadau hinsawdd a'r costau economaidd. Daeth yr Arolwg i'r casgliad bod amser o hyd i osgoi effeithiau gwaethaf newidiadau hinsawdd os gweithredir yn awr ar y cyd â gwledydd erall. Un o'r casgliadau allweddol oedd y byddai cost methu â gweithredu yn y tymor hwy yn llawer uwch na chost mynd i'r afael â newidiadau hinsawdd yn awr.

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhannu'r farn mai cymryd camau taer i leddfu effeithiau newidiadau hinsawdd yw'r unig strategaeth sy'n gyson â thwf economaidd tymor-hir a sefydlogrwydd bydeang.

Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dal ag ymrwymiad i fynd i'r afael â chyni tanwydd a lleihau'r risg bod aelwydydd y DU yn dioddef effeithiau andwyol cysylltiedig yn y meysydd cymdeithasol, ariannol ac iechyd. Mae ymdrechion y Llywodraeth i gipio aelwydydd o grafangau cyni tanwydd yn cael effaith gadarnhaol ond erys llawer o waith i'w wneud, yn enwedig yn sgil codiadau mewn prisiau tanwydd.

Mae awdurdodau lleol mewn safle unigryw i weithredu i liniaru newidiadau hinsawdd a lleddfu cyni tanwydd. Gallant gymryd camau ar eu hystadau a'u stoc tai eu hunain ond hefyd chwarae rhan allweddol mewn cymell y gymuned ehangach i weithredu, ar sail eu dealltwriaeth o flaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd lleol.

Effeithir ar bob rhan o'r DU gan newidiadau hinsawdd ac mae potensial i bob ardal elwa ar gamau i fynd i'r afael â nhw. Bydd gwella ansawdd ein lleoedd byw o gymorth i sicrhau cartrefi cynhesach, iachach i'r rheiny sy'n byw mewn cyni tanwydd. Gall gwella effeithlonrwydd ynni arbed arian i unigolion a busnesau, bod o les i'r tanwydd-anghenus a gostwng gollyngiadau nwyon tŷ gwydr.

Mae gan awdurdodau lleol nifer o gyfrifoldebau eisoes i ymgorffori newidiadau hinsawdd ac ystyriaethau polisi ynni i'r ffordd y dilynant eu pwerau a'u swyddogaethau.

Diben yr adroddiad hwn

O gofio'r rôl bwysig y gall awdurdodau lleol ei chwarae wrth fynd i'r afael â newidiadau hinsawdd a chyni tanwydd, roedd Deddf Newidiadau Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy 2006 yn mynnu gan yr Ysgrifennydd Gwladol lunio adroddiad ar y mesurau ynni a fyddai o gymorth i awdurdodau lleol fynd 'r afael â newidiadau hinsawdd a chyni tanwydd. Rhaid i'r adroddiad gynnwys gwybodaeth am fesurau y gall awdurdodau lleol eu defnyddio i:

- Wella effeithlonrwydd ynni;
- Cynyddu lefelau technolegau microgynhyrchu neu garbon-isel;
- Lleihau gollyngiadau nwyon tŷ gwydr; a
- Lleihau nifer y bobl sy'n byw mewn cyni tanwydd.

Rhaid i awdurdodau lleol hwythau gadw'r adroddiad mewn cof wrth weithredu'u swyddogaethau.

Nid yw'r Llywodraeth yn disgwyl i awdurdodau lleol dynnu costau ychwanegol gyda golwg ar yr adroddiad hwn. Felly, nid yw'r adroddiad ei hun yn gosod unrhyw feichiau newydd heb eu cyllido.

Ffynonellau allweddol ar gyfer cyngor a chefnogaeth

Mae amrywiol ffynonellau ar gyfer cyngor a chefnogaerh y gallai awdurdodau lleol eu cyrchu wrth feddwl am sut y gallent gyfrannu at fynd i'r afael â newidiadau hinsawdd a chyni tanwydd. Mae ffynonellau pwysica'r cyngor hwn yn cynnwys yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, yr Ymddiriedolaeth Garbon, Pecyn Gweithredu Datganiad Nottingham, y Comisiwn Newidiadau Hinsawdd i Lywodraeth Leol, yr Asiantaeth Gwella a Datblygu, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref. Cyfeirir fel sy'n briodol at y rhain, ac eraill, drwy'r adroddiad cyfan.

Syniadau ar gyfer gweithredu

Mae'r adroddiad mesurau ynni hwn yn manylu ar gamau y gall awdurdodau lleol eu cymryd. I unrhyw awdurdod arbennig bydd rhai camau'n fwy priodol ac yn fwy ymarferol na'i gilydd. Dim ond rhywun o fewn awdurdod lleol all farnu'n union ba rai yw'r dewisiadau gorau iddynt hwy . I'ch helpu i wneud y penderfyniad hwn, mae'r adroddiad yma'n manylu ar yr opsiynau gweithredu mewn cyfres o fodiwlau ac yn cynnig enghreifftiau o gamau gan amrywiaeth helaeth o awdurdodau lleol.

Ymagwedd strategol seiliedig ar arfer dda

Gall mabwysiadu ymagwedd strategol at liniaru newidiadau hinsawdd a lleddfu cyni tanwydd fod o gymorth i sicrhau bod pob gweithred briodol yn cael ei hystyried, bod modd cofnodi'r cynnydd a wneir ac y gall partneriaid potensial weld gwerth y gweithredu a gynigir. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar liniaru newidiadau hinsawdd ond dylai unrhyw ymagwedd strategol gynnwys ymaddasu i newid anochel yn yr hinsawdd hefyd.

Mae'r adroddiad yn gosod y grisiau allweddol a gynhwysir o fewn ymagwedd strategol. Bydd dyfnder a lled delfrydol unrhyw strategaeth a chynllun gweithredu yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael i'r awdurdod ond gall grisiau allweddol y broses fod o ddefnydd inni bawb.

Bydd gweithredu effeithiol yn cynnwys meithrin partneriaethau priodol. Gall y rhain gynyddu'r adnoddau sydd ar gael i fentrau, darparu arbenigedd, a chynnig llwybrau i gyrraedd a pherswadio'r bobl briodol i gymryd camau. Gall monitro effeithlonrwydd y camau gael ei esgeulsuo'n aml, yn enwedig pan fo adnoddau'n brin. Fodd bynnag, mae'n rhan hanfodol o ymagwedd effeithiol.

Arweiniad cymunedol

Mae arweiniad lleol cryf yn mynd i fod yn hollbwysig i ymdrechion cenedlaethol i fynd i'r afael â newidiadau hinsawdd a chyni tanwydd Bydd yn rhaid i bob rhan o'r gymdeithas gyfrannu, drwy effeithlonrwydd ynni uwch a thrwy ehangu defnydd technolegau adnewyddol a charbon-isel. Mae awdurdod lleol mewn safle ardderchog i annog gweithredu o'r fath. Yn yr un modd, mae awdurdod lleol mewn safle delfrydol i ddod ynghyd â gwahanol gyrff a hwyluso mynd i'r afael â chyni tanwydd.

Gall arwain ardal leol i ostwng gollyngiadau carbon a dileu cyni tanwydd wireddu llawer o fuddion lleol y tu hwnt i'r rhai amlwg o osgoi ardrawiad potensial newidiadau hinsawdd a gwella ansawdd bywyd i

aelwydydd a gaiff eu cipio o grafangau cyni tanwydd. Mae iddo'r potensial o gael effaith ar agweddau fel iechyd a chydlyniad cymunedol. Mae hefyd yn dangos bod yr awdurdod lleol yn fodlon gweithredu ar faterion sydd yn bryder i lawer, a gall greu'r potensial ar gyfer balchder uwch yn yr ardal leol. Gall y costau tanwydd is sy'n deillio o well effeithlonrwydd greu incwm defnyddiadwy uwch y mae'n bosibl iawn y caiff rhywfaint ohono ei wario o fewn yr economi leol. Gall datblygu marchnad i nwyddau a gwasanaethau carbon-isel greu cyfleoedd i fusnesau lleol ddatblygu mewn meysydd y bydd iddynt farchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol.

Ystad a gweithrediadau awdurdodau eu hunain

Amcangyfrifir mai 26 biliwn kWh o ynni y flwyddyn, o leiaf, a gaiff ei dreulio gan awdurdodau leol. Mae hyn yn creu gollyngiadau deuocsid carbon ($MtCO_2$) o fwy na 6.9 miliwn o dunelli metrig y flwyddyn, gan gyfateb i wariant ynni o ryw £750 miliwn y flwyddyn. Ond mae rhai agweddau ar draul ynni ormodol o'r fath lle gellid arbed, megis goleuo, gwresogi, awyru, tymheru ac offer swyddfa. Bydd rheolaeth ynni o fewn awdurdodau lleol yn cyfrannu'n uniongyrchol at liniaru newidiadau hinsawdd, yn arwain at arbedion cost i'r awdurdod lleol ac yn ffurfio rhan allweddol o rôl arweiniad cymunedol yr awdurdod lleol yn y maes hwn.

Caiff awdurdodau lleol gyfleoedd hefyd i ddylanwadu ar yr arferion o fewn ymgymeriadau y mae ganddynt fuddiant rhannol yddynt, e.e. cyd-fenter â chwmni sector preifat a gwasanaethau a gaiff eu trefnu dan gontract.

Amgylchedd

Mae gan awdurdodau lleol rôl bellgyrhaeddol yn yr amgylchedd a gallant gymryd camau sylweddol tuag at liniaru newidiadau hinsawdd a lleddfu cyni tanwydd drwy eu swyddogaethau yn y maes hwn. Cânt gyfle i feithrin newid ymddygiadol drwy bolisïau a gweithrediadau gorfodi, a thrwy ymgymryd â rôl arweiniad cymunedol sy'n hwb amlwg i weithredu sy'n gostwng gollyngiadau deuocsid carbon.

Drwy sicrhau bod polisïau a gweithrediadau gorfodi yn gefn i'r agenda newidiadau hinsawdd, gall awdurdodau lleol hefyd ennill buddion sylweddol iddynt hwy eu hunain a'u cymunedau. Mae'r rhain yn cynnwys arbedion ariannol, gwell ansawdd awyr, llai o dagfeydd traffig a bywiadwyedd cymunedol uwch.

Cynllunio

Bydd y system gynllunio yn helpu i ddiffinio rôl awdurdodau lleol o ran llunio lle, gan ganolbwyntio ar ddatblygiad cynaliadwy. Fel y cyfryw, mae'n cynnig un o'r cyfleoedd mwyaf i awdurdodau lleol ddylanwadu ar ddefnydd ynni ac felly ar y gollyngiadau deuocsid carbon sy'n tarddu o ddatblygiadau newydd. Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr yn canolbwyntio fwyfwy ar liniaru newidiadau hinsawdd ac ymaddasu, ac mae hyn yn cael dylanwad uniongyrchol ar y disgwyliadau i bolisïau ac arferion cynllunio lleol.

Bydd y Datganiad Polisi Cynllunio (PPS) newydd ar newidiadau hinsawdd, sydd i'w gyhoeddi'n ddiweddarach eleni, yn gosod sut y dylai cynllunio, wrth ddarparu ar gyfer y cartrefi, y swyddi a'r seilwaith newydd fydd angen ar gymunedau, helpu i lunio mannau sy'n gollwng llai o garbon ac sydd â mwy o wrthsafiad i'r effeithiau newid hinsawdd a dderbynnir bellach yn anochel. Yn ateg i'r PPS cyhoeddir canllaw arferion. Yng Nghymru, disgwylir i awdurdodau lleol gymryd i ystyriaeth y Datganiad Polisi Cynllunio Gweinidogol ar Newidiadau Hinsawdd (ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd).

Gellir defnyddio'r system gynllunio i helpu i gadw ôl carbon datblygiadau newydd mor isel â phosibl. Mae dylunwaith a lleoliad datblygiadau newydd, gan gynnwys hygyrchedd cludiant cyhoeddus er mwyn hyrwyddo opsiynau cludiant cynaliadwy, hefyd yn agweddau pwysig ar ddatblygiadau carbon-isel.

Mae rôl bwysig i gynllunwaith gofodol yntau wrth lunio cymunedau cynaliadwy sy'n gallu gwrthsefyll y canlyniadau newid hinsawdd a dderbynnir bellach yn anochel.

Gall awdurdodau lleol ddylanwadu'n sylweddol ar ollyngiadau carbon drwy gyfrwng eu rôl cynllunio gofodol drwy greu dogfennau cynllun datblygu sy'n gyfraniad llawn at wireddu polisïau ynni a newidiadau hinsawdd y Llywodraeth, gan gyfrannu felly at gynaliadwyedd bydeang. Gall awdurdodau lleol hefyd chwarae rhan allweddol wrth helpu i lunio strategaethau gofodol rhanbarthol sy'n uchelgeisiol o ran y sylw a roddant i newidiadau hinsawdd.

Yn ychwanegol at weithredu polisïau cynllunio, gall swyddogion rheoli datblygiad mewn awdurdodau lleol annog ac addysgu datblygwyr i fynd ymhellach na'r safonau isaf sy'n angenrheidiol tuag at safon dim carbon o gwbl, a fydd cyn bo hir yn ofynnol i gartrefi yn Lloegr ac o bosibl i bob adeilad yng Nghymru. I adeiladau presennol, gall awdurdodau lleol fynnu neu annog manteisio ar opsiynau ynni cynaliadwy lle bynnag y bo eisiau cymeradwyaeth i waith ailwampio, trosi neu ehangu. Mae gan swyddogion rheoli datblygiad a swyddogion rheoli adeiladu fel ei gilydd ran i'w chwarae yma. Yn y sector domestig, gall hyn yn ei dro wella effeithlonrwydd ynni'r stoc tai, gan ostwng lefelau cyni tanwydd.

Tai

Yn 2004, roedd y defnydd ynni mewn tai yn cyfrif am tua 27% o ollyngiadau deuocsid carbon y DU.[1] Yn Lloegr, mae tua 4.4 miliwn o gartrefi heb yr inswleiddio effeithiol na'r gwresogi effeithiol sydd angen i fodloni maen prawf y Safon Cartrefi Dechrau o ran cysur thermol.[2] Yn rhannol o ganlyniad i hyn, roedd rhyw ddwy filiwn o aelwydydd yn y DU yn dioddef cyni tanwydd, gyda miliwn a hanner o'r rheiny yn dod o dan y categori agored i niwed.[3] Mae rhesymau da iawn, felly, dros gymryd camau i wella effeithlonrwydd ynni'r stoc tai a meithrin mwy o fuddsoddi yn nefnydd technolegau adnewyddol a charbon-isel i ddarpau gwres a thrydan yn y cartref.

Mae gan awdurdodau lleol, ar y cyd â landlordiaid cymdeithasol eraill, ddyletswydd i sicrhau bod unrhyw stoc tai y maent yn berchen arno yn cwrdd â'r Safon Cartrefi Dechau neu Safon Ansawdd Tai Cymru. Yng Nghymru a Lloegr, bydd awdurdodau lleol hefyd yn gorfodi'r System Iechyd Tai a Dosbarthiad Diogelwch sy'n cynnwys dileu peryglon yn gysylltiedig â chartrefi oer a llaith. Ond mae mynd i'r afael yn effeithiol â newidiadau hinsawdd a chael gwared ä chyni tanwydd yn mynnu mwy na bodloni'r safonau sylfaenol hyn. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth am sut y gall awdurdodau lleol weithio i wella tai'r sector cymdeithasol a'r sector preifat drwy effeithlonrwydd ynni a mesurau adnewyddol a charbon-isel, yn ogystal â thrwy newid ymddygiad a chynnig cymorth.

Cludiant

Mae mynd i'r afael â newidiadau hinsawdd yn flaenoriaeth i'r polisi cludiant. Mae system gludiant dda yn ganolog i economi lewyrchus, gwell mynediad a gwell symudedd, ond rhaid iddi amlygu cydbwysedd rhwng y galw cynyddol am deithio a'r nodau o warchod yr amgylchedd a gwella ansawdd bywyd pawb, p'un a fyddant yn teithio neu beidio. Wrth i bobl fynd yn fwy ffyniannus, tueddant i deithio'n fwy, a hynny mewn ffyrdd sy'n rhyddhau mwy o ddeuocsid carbon. Mae gollyngiadau carbon cludiant domestig wedi codi o 10% rhwng 1990 a 2004.

Mae Cynlluniau Cludiant Lleol a Rhanbarthol yn agwedd allweddol ar yr ymateb i newidiadau hinsawdd. Ceir hefyd feysydd dylanwad pwysig i bob awdurdod lleol, p'un a oes ganddynt gyfrifoldeb am ddatblygu'r cynlluniau hyn neu beidio – megis meithrin teithio cynaliadwy drwy gyfrwng y system

[1] Ystadegau Defra: www.defra.gov.uk/environment/statistics/globatmos/kf/gakf07.htm.
[2] Arolwg Cyflwr Tai Lloegr 2005: http://communities.gov.uk/pub/682/EnglishHouseConditionSurvey2005AnnualReport_id1510682.pdf.
[3] 4ydd Adroddiad Cynnydd Dileu Cyni Tanwydd Blynyddol y DU: www.berr.gov.uk/files/file29688.pdf.

gynllunio, gwella'r seilwaith i bob dull teithio, a gweithio gydag ysgolion a phartneriaid eraill i egluro manteision teithio carbon-isel fel y gall y cyhoedd wneud dewisiadau teithio doeth.

Bydd mesurau i ostwng gollyngiadau deuocsid carbon y sector cludiant yn dod ag amrywiaeth o fuddion yn eu sgil y tu hwnt i liniaru newidiadau hinsawdd, megis manteision iechyd a gwell ansawdd awyr.

Bu i'r Llywodraeth gyhoeddi'n ddiweddar Fesur Cludiant Lleol drafft (www.dft.gov.uk/localtransportbill). Mae'n cynnwys cynigion yn ateg i ymdrechion y Llywodraeth i fynd i'r afael â thagfeydd a gwella cludiant cyhoeddus drwy sicrhau bod awdurdodau lleol â'r pwerau priodol i gymryd camau lleol i ddiwallu anghenion cludiant lleol. Lle dewisant arfer y pwerau hyn, gallai awdurdodau lleol gyfrannu hefyd at liniaru newidiadau hinsawdd mewn llawer enghraifft.

Ysgolion ac addysg

Mae gan ysgolion ran bwysig i'w chwarae wrth liniaru achosion newidiadau hinsawdd mewn nifer o ffyrdd.

Mae'r Llywodraeth ar hyn o bryd yn buddsoddi mewn rhaglen gyfalaf o bwys i ysgolion. Mae hyn yn rhoi cyfle arwyddocaol i awdurdodau lleol sicrhau bod defnydd ynni a gollyngiadau deuocsid carbon yn cael eu gostwng mewn adeiladau ysgol drwy fabwysiadu mesurau effeithlonrwydd ynni a thechnolegau ynni adnewyddol/carbon-isel.

Gall awdurdodau lleol hefyd weithio gyda chymunedau ysgol i sicrhau bod defnydd ynni mewn adeiladau ysgol yn cael ei reoli'n effeithiol. At hyn, gall awdurdodau lleol weithio gydag ysgolion i ddatblygu cynlluniau teithio i'r ysgol.

Mae gan ysgolion ran yr un mor bwysig i'w chwarae hefyd drwy sicrhau bod mesurau ynni-effeithlon, unwaith y cawsant eu cyflwyno, yn cael eu rhoi ar waith o fewn cynlluniau dysgu ac addysgu'r ysgol a'u hymgorffori mewn gwersi a gweithrediadau. Byddai hyn o gymorth i feithrin rhan weithredol y plant o ran ymwybyddiaeth ynni.

Gofal cymdeithasol

Gall proffesiynolion gofal cymdeithasol mewn awdurdod lleol amlygu diddordeb deublyg mewn gwella effeithlonrwydd ynni. Yn gyntaf drwy chwarae rhan yn y gwaith o leddfu cyni tanwydd, ac yn ail drwy ystyried defnydd ynni o fewn ystad yr awdurdod ei hun ac mewn gweithrediadau sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol.

Gall gwell effeithlonrwydd ynni yn y cartref fod o gymorth i leddfu cyni tanwydd a mynd i'r afael ag achosion newidiadau hinsawdd. Gall proffesiynolion gofal cymdeithasol chwarae rhan werthfawr wrth sicrhau hyn, gan eu bod yn ffynhonnell ddibynadwy ar gyfer gofal a chefnogaeth i blant, pobl hŷn ac oedolion eraill sy'n agored i niwed.

Yn ogystal â sicrhau lleddfu cyni tanwydd a helpu i wella effeithlonrwydd ynni, gall cyfraniad proffesiynolion gofal cymdeithasol eu helpu hwythau i gyrraedd eu hamcanion eu hun. Er enghraifft, gall leihau arunigedd cymdeithasol a gwella presenoldeb yn yr ysgol.

Datblygiad ac adfywiad economaidd

Yn nhermau datbygiad economaidd, daw nifer o fuddion yn sgil mynd i'r afael â newidiadau hinsawdd a chyni tanwydd, gan gynnwys: creu gwaith yn y diwydiannau cynhyrchu a gosod; incwm defnyddiadwy uwch o ganlyniad i filiau tanwydd is, y mae'n bosibl iawn y caiff ei wario yn yr economi leol; a chyfleoedd datblygu busnes i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau carbon-isel. Ymhellach, os cânt eu

hesgeuluso, bydd newdiadau hinsawdd yn y pen draw yn niweidio twf economaidd (fel y pwysleisir gan Arolwg Stern).

Bydd awdurdodau lleol yn chwarae rhan allweddol yn hyn gan eu bod yn bartneriaid gwireddu pwysig o fewn cynlluniau adfywio a datblygiadau newydd. Drwy gyfrwng cynllunio da a chadarnhaol, gallant hwyluso a hybu patrymau datblygu trefol a gwledig cynaliadwy a chynhwysol drwy gyfrannu at ddatblygiad economaidd cynaliadwy.

Cyngor ynni

Gall awdurdodau lleol chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod cyngor ynni yn cael ei gynnig i bob sector o'r gymuned. Mae Deddf Newidiadau Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy 2006 yn galluogi cynghorau plwyf yn Lloegr a chynghorau cymuned yng Nghymru i feithrin neu hybu (drwy gyngor a chefnogaeth yn cynnwys cymorth ariannol) fesurau arbed ynni. Gall cyngor ynni effeithiol fod o gymorth i newid ymddygiad, a all yn ei dro arwain at ddefnyddio mwy effeithlon ar ynni ymhob sector. Gall hefyd fod o gymorth i ddeiliaid tŷ ddewis y technolegau ynni adnewyddol a charbon-isel mwyaf priodol i'w cartrefi.

Mae hyfforddi staff awdurdodau lleol i fod yn ynni-effro yn debyg o arwain at arbedion carbon ac ariannol i'r cyngor yn ogystal ag i'r gymuned ehangach. Hefyd, gall gofalu bod aelodau'r gymuned yn cael manteisio'n rhwydd ar gyngor ynni o ansawdd uchel fod o gymorth o ran ymdrechion i leihau cyni tanwydd a mynd i'r afael â newidiadau hinsawdd.

Ymaddasu i newidiadau hinsawdd

Canolbwynt yr adroddiad yw mesurau i liniaru achosion newidiadau hinsawdd. Ond mae rhywfaint o newid hinsawdd yn sgil gollyngiadau nwyon tŷ gwydr presennol ac yn y gorffennol eisoes yn anochel. Felly, mae'n bwysig i awdurdodau lleol gymryd i ystyriaeth gamau lliniaru (i leihau gollyngiadau'r dyfodol) yn ogystal â chamau ymaddasu (sef ymaddasu i'r newidiadau sydd eisoes yn digwydd).

Awdurdodau lleol sy'n darparu llawer o'r gwasanaethau yr effeithir arnynt gan newidiadau hinsawdd. Mae'r senarios hinsawdd a gynhwysir yn Rhaglen Effeithiau Hinsawdd y DU (UKCIP) yn rhagweld posibilrwydd gaeafau gwlypach, hafau poethach a sychach, a digwyddiadau tywydd eithafol amlach, megis stormydd a llifogydd sydyn. Mae'n debyg y bydd y rhain yn peri goblygiadau i wasanaethau'n cynnwys: cynllunio argyfwng, rheoli gwastraff, cynllunio, rheoli ystadau, darparu cyfleusterau hamdden a gwasanaethau cymdeithasol

Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio amlinellu beth y gall awdurdodau lleol ei wneud gyda golwg ar ymaddasu (er ei fod, mae'n wir, yn tynnu sylw at rai adnoddau allweddol ar gyfer hyn). Ei nod, yn hytrach, yw tanlinellu pwysigrwydd ymagwedd strategol at liniaru ac ymaddasu fel ei gilydd.

Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio www.berr.gov.uk
Cyhoeddwyd gyntaf Medi 2007. Hawlfraint y Goron. BERR/9/07/NP. URN 07/1498